**EITEM AR YR AGENDA: 9**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**4ydd Chwefror 2013**

**AELODAETH GWEITHGOR Y CYNLLUN GWELLA**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Cytuno ar aelodaeth Gweithgor y Cynllun Gwella.

## Y Cefndir

2 Mae Mesur Llywodraeth Leol 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gwella yng Nghymru osod iddynt eu hunain amcanion gwella, ac ymgynghori'n eang gyda'r rhanddeiliaid perthnasol a phobl sydd â diddordeb yn y maes ynglŷn â chyflawni eu dyletswyddau gwella.

3 Mae Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) 2012 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau hynny gyhoeddi'r Cynllun Gwella y cytunwyd arno – gan ymgorffori eu hamcanion gwella – a hynny cyn gynted ag y bo'n rhesymol yn ymarferol ar ôl 31 Rhagfyr cyn y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi.

4 Ers 2003, mae'r Awdurdod wedi enwebu aelodau i sefyll ar weithgorau i ddatblygu cynlluniau yn unol â'r gofynion cynllunio sy'n bodoli ar y pryd, ac mae hyn wedi dod yn rhan annatod o broses yr Awdurdod ar gyfer y gyllideb a chynllunio.

## Gwybodaeth

5 Mae'r Gweithgor yn ymdrin â'r gwaith manwl sy'n gysylltiedig â phroses cynllunio a chyllideb yr Awdurdod, cyn iddo gyflwyno ei sylwadau i'r Panel Gweithredol i alluogi hwnnw i ffurfio argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub mewn perthynas â'r Cynllun i Leihau Risg a Gwella a'r gyllideb. Nid yw'r Gweithgor yn bwyllgor sydd â chyfansoddiad ffurfiol, ac felly nid yw ei gyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd. Bydd y Gweithgor yn cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y cyfnod cyn cyhoeddi dogfennau.

6 Yn y gorffennol, bu gwahanol ffurfiau i aelodaeth y gweithgor. Oherwydd pwysigrwydd proses y gyllideb a chynllunio, ac o ystyried bod nifer fawr o aelodau dal yn weddol newydd i waith yr Awdurdod, ystyrir mai doeth o beth fyddai gwahodd, unwaith eto, pob aelod o'r Panel Gweithredol i fod yn aelodau o Weithgor y Cynllun Gwella.

7 Y bwriad felly yw i'r Gweithgor gyfarfod yn rheolaidd dros y misoedd nesaf i ddatblygu Cynllun Gwella drafft 2014-15 ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus tuag at ddiwedd 2013 ac i'w gyhoeddi ym Mawrth 2014.

8 Disgwylir y bydd y Gweithgor yn cyfarfod yn fisol ar y dechrau i ddatblygu'r Cynllun Gwella drafft gyda diweddariadau rheolaidd yn cael eu cyflwyno i'r Panel Gweithredol.

## Argymhellion

9 Gofynnir i'r Aelodau gytuno bod aelodaeth lawn y Panel Gweithredol yn dod yn aelodaeth Gweithgor y Cynllun Gwella.